

# DINASYDDIAETH FYD-EANG YN YR YSTAFELL DDOSBARTH

Canllaw i athrawon

OXFAM




"ADDYSG YW'R ARF MWYAF PWERUS ALLWCH CHI EI DDEFNYDDIO I NEWID Y BYD."
Nelson Mandela

# CYNNWYS


Yr ystafell ddosbarth fyd-eang 4
Dysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang 5
Y prif syniadau mewn dinasyddiaeth fyd-eang 6
Fframwaith gynllunio 8
Datblygu dinasyddiaeth fyd-eang yn eich gwaith dosbarth 10
Cymryd rhan yn y dysgu a gwneud penderfyniadau 11
Gofyn cwestiynau 12
Gwneud cysylltiadau 14
Archwilio safbwyntiau a gwerthoedd 16
Ymateb fel dinasyddion byd-eang gweithredol 18
Asesu´r dysgu 20
Adnoddau a chymorth pellach 22





Llun: Ami Vitale

# YR YSTAFELL DDOSBARTH FYD-EANG

Oherwydd natur gydgysylltiol a chyd-ddibynnol ein byd, nid rhywbeth sydd 'allan fan draw' yw bod yn fyd-eang. Mae ein cysylltiadau â phobl a lleoedd ar bob cyfandir yn golygu bod y byd-eang yn rhan o'n bywydau bob dydd:

- yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol drwy'r cyfryngau a thelegyfathrebu, ac yn sgil teithio a mudo
- yn economaidd oherwydd masnach a chyllid rhyngwladol
- yn amgylcheddol gan ein bod yn rhannu yr un blaned
- yn wleidyddol drwy gysylltiadau a systemau rheoleiddio rhyngwladol.

Mae'r byd rydym yn byw ynddo, un eang ei gysylltiadau sy'n newid yn gyflym, yn cynnig cyfleoedd aruthrol i'n pobl ifainc. Ond mae hynny'n wir am yr heriau hefyd. Mae plant ifainc iawn eisoes yn ceisio gwneud synnwyr o fyd lle ceir rhaniadau, gwrthdaro, newid amgylcheddol, a diffyg cydraddoldeb a thlodi affwysol. Cred Oxfam fod gan ddysgwyr yr hawl i addysg sy'n rhoi iddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd y mae eu hangen arnynt i fanteisio ar y cyfleoedd ac wynebu'r heriau hyn a chreu'r math o fyd y maent yn dymuno byw ynddo. Yr enw a ddefnyddir gennym am hyn yw 'addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang'.

Mae'r diffiniad o ddinasyddiaeth fyd-eang yn golygu ymwneud â mannau pell a diwylliannau gwahanol, ond gwneir hyn bob amser o fewn cyd-destun ein bywydau a'n cymunedau ein hunain. Rhoddir pwyslais ar archwilio'r hyn sy'n eu cysylltu â phobl, lleoedd a diwylliannau eraill, natur a chydraddoldeb y cysylltiadau hynny, a sut y gallwn ddysgu am y bobl, y mannau a'r diwylliannau hynny, ac oddi wrthynt.

"YN YR YSGOL HON RYDW I WEDI DYSGU Y GALLWCH CHI WNEUD GWAHANIAETH, WAETH PA MOR FACH RYDYCH CHI'N TEIMLO. MAE I BOPETH A WNEWCH EFFAITH: UN DA WEITHIAU, UN GWAEL DRO ARALL."

Dysgwr o Ysgol Bootham

### Canllaw ymarferol ac adfyfyriol

Yn Oxfam, gwyddom fod llawer o athrawon yn anelu at ddarparu addysg o'r math hwn, ond oherwydd cymhlethdod y materion dan sylw a'r holl heriau eraill mae athrawon yn eu hwynebu, gall fod yn anodd gwybod ble i ddechrau gyda'r gwaith o drosglwyddo'r dyheadau hyn yn rhan o waith y dosbarth o ddydd i ddydd. Nod y canllaw hwn yw cyflwyno rhai syniadau i chi yn ogystal â rhoi awgrymiadau ymarferol i'ch arwain ar y trywydd hwn.

Rydym hefyd yn ymwybodol ein bod i gyd ar siwrnai barhaus i geisio deall dinasyddiaeth fyd-eang a'i goblygiadau yn ein hymarfer proffesiynol. Felly, mae'r canllaw hwn hefyd yn cynnwys rhai pwyntiau y gellir eu defnyddio i fyfyrio arnynt, yn unigol neu gyda chyd-weithwyr, i ddwysáu eich ffordd o feddwl a'ch gwaith yn y dosbarth.

"RYDW I'N MWYNHAU DYSGU AM BOBL DDEWR A GWROL SY'N MYNNU EU HAWLIAU PAN FYDD PAWB ARALL YN GWRTHOD IDDYN NHW EU CAEL. ROEDD HYNNY'N RHYWBETH DEWR IAWN I'W WNEUD AC YN EITHA CŴL HEFYD."

Dysgwr o Ysgol Gynradd Rhodes Avenue

### Y DINESYDD BYD-EANG

Cred Oxfam fod Dinesydd Byd-eang:

- yn ymwybodol o'r byd ehangach ac yn deall ei rôl ei hun fel dinesydd o'r byd
- yn parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth
- yn deall sut mae'r byd yn gweithio
- yn teimlo'n angerddol o blaid cyfiawnder cymdeithasol
- yn weithgar yn y gymuned ar nifer o lefelau gwahanol, o'r lleol i'r byd-eang
- yn gweithio gydag eraill i wneud y byd yn lle tecach a mwy cynaliadwy
- yn cymryd cyfrifoldeb dros ei weithredoedd.

### YSTYRIWCH

- Beth yw prif ddibenion addysg, yn eich barn chi?
- Mae sawl barn ynglŷn ag ystyr dinasyddiaeth fyd-eang. Sut fyddech chi'n diffinio 'dinesydd byd-eang'? Sut mae eich syniadau chi'n cymharu â rhai Oxfam (uchod)?
- Pa agweddau a gwerthoedd, gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eu hangen fwyaf ar ddysgwyr yn y byd heddiw? Sut allai hyn fod yn wahanol ymhen ugain mlynedd? Cymharwch eich syniadau â'r elfennau allweddol ar dudalen 5.

Mae Cwricwlwm cyflawn Oxfam ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang ar gael am ddim yn y llyfryn Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang: Arweiniad i ysgolion, ar y wefan: **www.oxfam.org.uk/gcguides**

## DYSGU AM DDINASYDDIAETH FYD-EANG

Mae Oxfam wedi datblygu Cwricwlwm ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang sy'n amlinellu'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd y credwn sydd eu hangen ar ddysgwyr yn y Deyrnas Unedig er mwyn bod yn ddinasyddion byd-eang gwerthfawr. Rhestrir yr elfennau allweddol isod. Dylid nodi, er hynny, nad yw'n rhestr derfynol i'w dilyn yn haearnaidd – gall athrawon a dysgwyr mewn cyd-destunau gwahanol deimlo yr hoffent ymchwilio i feysydd gwybodaeth eraill, bod angen iddynt gael sgiliau eraill ac yr hoffent ystyried gwerthoedd eraill.

**Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang – Elfennau allweddol sydd wedi'u diffinio gan Oxfam**

| Gwybodaeth a dealltwriaeth | Sgiliau | Gwerthoedd ac agweddau |
|---|---|---|
| • Cyfiawnder a thegwch cymdeithasol | • Meddwl yn feirniadol a chreadigol | • Synnwyr o hunaniaeth a hunan-werth |
| • Hunaniaeth ac amrywiaeth | • Empathi | • Ymrwymiad i gyfiawnder a thegwch cymdeithasol |
| • Globaleiddio a chyd-ddibyniaeth | • Hunanymwybyddiaeth a myfyrio | • Parch at bobl a hawliau dynol |
| • Datblygu cynaliadwy | • Cyfathrebu | • Gwerthfawrogi amrywiaeth |
| • Heddwch a gwrthdaro | • Cydweithio a datrys gwrthdaro | • Gofal am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy |
| • Hawliau dynol | • Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd | • Ymrwymiad i gyfranogi a chynhwysiant |
| • Pŵer a llywodraethu | • Gweithredu cytbwys a myfyriol | • Y gred y gall pobl greu newid |

| Mae Dinasyddiaeth Fyd-eang yn golygu... | Nid yw'n golygu... |
|---|---|
| ✓ gofyn cwestiynau a meddwl yn feirniadol | × dweud wrth bobl beth i'w feddwl a beth i'w wneud |
| ✓ ystyried cysylltiadau rhwng y lleol a'r byd-eang a'n barn, ein gwerthoedd a'n rhagdybiaethau ni | × lleoedd a phobloedd pell i ffwrdd yn unig |
| ✓ ystyried cymhlethdod materion byd-eang ac edrych o safbwyntiau niferus | × rhoi atebion syml i faterion cymhleth |
| ✓ ystyried materion cyfiawnder cymdeithasol yn lleol ac yn fyd-eang | × canolbwyntio ar godi arian yn elusennol |
| ✓ cymhwyso'r hyn a ddysgir i faterion a chyd-destunau yn y byd go iawn | × dysgu haniaethol heb ei gymhwyso i fywyd go iawn a heb ganlyniadau bywyd go iawn |
| ✓ cyfleoedd i ddysgwyr weithredu mewn ffordd gytbwys a myfyriol, ac i fynegi'u barn | × cynnwys dysgwyr mewn penderfyniadau mewn ffordd symbolaidd |
| ✓ pob oedran | × bod yn rhy anodd i blant ifanc ei deall |
| ✓ pob maes yn y cwricwlwm | × pwnc ychwanegol |
| ✓ cyfoethogi'r hyn sy'n cael ei addysgu a'i ddysgu bob dydd | × ffocws ar gyfer diwrnod neu wythnosol benodol yn unig |
| ✓ amgylchedd yr ysgol gyfan | × bod yn gyfyngedig i'r ystafell ddosbarth |

# Y PRIF SYNIADAU MEWN DINASYDDIAETH FYD-EANG

I addysgu eich myfyrwyr mewn dinasyddiaeth fyd-eang, does dim raid ichi fod yn arbenigwr ar bob pwnc yn y maes. Mae parodrwydd i ymrafael â'r hyn mae'r 'prif syniadau' isod yn ei olygu yn eich gwaith yn y dosbarth yn llawer pwysicach.

## Globaleiddio a chyd-ddibyniaeth

Rydyn ni'n byw mewn byd cydgysylltiol lle gall penderfyniadau a wneir mewn un lle effeithio ar bobl sy'n byw yr ochr arall i'r blaned. Ond mae'r syniad o gyd-ddibyniaeth fyd-eang yn mynd ymhellach na hyn, gan gydnabod bod hyd yn oed y gwledydd cyfoethocaf yn dibynnu'n helaeth ar gyfoeth gwledydd eraill – o nwyddau megis bwydydd a mwynau i wybodaeth a diwylliant.

**MYFYRIO**
- Ym mha ffyrdd y mae geiriau Martin Luther King yn wir i chi? Ac i'ch dysgwyr?
- Sut mae diwylliannau gwahanol wedi dylanwadu ar y pynciau rydych chi'n eu haddysgu. I ba raddau mae hyn yn amlwg yn yr ystafell ddosbarth?



"CYN I CHI ORFFEN BWYTA EICH BRECWAST BORE HEDDIW, ROEDDECH CHI WEDI DIBYNNU AR DROS HANNER Y BYD."
Martin Luther King

## Cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb

Yn ganolog i ddinasyddiaeth fyd-eang mae'r syniad fod pob person yn perthyn i'r un hil ddynol, yn rhannu dynoliaeth gyffredin ac yn gyfwerth â'i gilydd. Felly, dylai pawb gael yr un hawliau sylfaenol a'u trin yn gyfartal. Eto, mae'r gred fod rhai grwpiau'n well na'i gilydd, a bod rhai grwpiau'n 'perthyn' ac eraill nad ydynt yn perthyn, yn parhau i gael ei mynegi drwy gyfrwng geiriau, ymddygiad a systemau – a gall hyn gael ei adlewyrchu (yn anfwriadol yn aml) hyd yn oed yn arferion a chwricwlwm ysgolion.

**MYFYRIO**
- Ble mae'r anghyfiawnder (a) yn y byd; (b) yn eich cymuned leol; (c) yn eich ysgol?
- Sut gall gwaith ysgolion gyfnerthu yn ogystal â herio anghyfiawnder cymdeithasol?



"OS YDYCH YN NIWTRAL MEWN SEFYLLFAOEDD O ANGHYFIAWNDER, RYDYCH CHI WEDI DEWIS OCHR Y GORMESWR. OS YW TROED ELIFFANT AR GYNFFON LLYGODEN AC RYDYCH CHI'N DWEUD EICH BOD YN NIWTRAL, YNA FYDD Y LLYGODEN DDIM YN GWERTHFAWROGI'CH NIWTRALIAETH."
Desmond Tutu

## Hunaniaeth ac amrywiaeth

Yr un anghenion sylfaenol sydd gan fodau dynol, ond mae nifer o wahanol ffyrdd o'u diwallu. Gall gwahaniaethau o ran rhyw, diwylliant, dosbarth, cenedligrwydd, ethnigrwydd, iaith a statws fod yn amlwg wrth geisio egluro'r amrywiaeth hwn a sefydlu hunaniaeth. I lwyddo mewn byd sy'n mor amrywiol ac yn newid mor gyflym, rhaid i'r dysgwyr deimlo'n hyderus yn eu hunaniaeth eu hunain; ond dylent hefyd fod yn agored i ymwneud mewn modd positif â hunaniaeth a diwylliannau eraill, yn ogystal â gallu adnabod stereoteipiau a'u herio.

**MYFYRIO**
- Beth sy'n dangos bod yr ystafell ddosbarth yn un gynhwysol?
- O'ch profiad mewn ysgolion hyd yn hyn, i ba raddau mae cyfraniadau positif amrywiol ddiwylliannau, cymdeithasau a thraddodiadau wedi cael eu cydnabod?



"RYDYM OLL YN BYW GYDA'R NOD O FOD YN HAPUS; MAE EIN BYWYDAU NI I GYD YN WAHANOL OND ETO'R UN PETH."
Anne Frank



Llun: Chris O'Donovan

## Datblygiad cynaliadwy

Mae'r ffordd rydym yn rhannu ac yn defnyddio adnoddau'r ddaear yn effeithio ar iechyd y blaned yn ogystal ag iechyd pawb rydym yn rhannu'r blaned â nhw – nawr ac yn y dyfodol. Gellir dehongli datblygiad cynaliadwy mewn llawer ffordd, ond yr hyn sy'n greiddiol iddo yw'r ymwybyddiaeth fod angen i'n perthynas â'r ddaear gydnabod nad yw ei hadnoddau'n ddihysbydd a bod gan bawb hawliau dynol.

**MYFYRIO**

- Beth ydi ystyr 'cynaliadwyedd' i chi?
- Beth sy'n nodweddu 'ysgol gynaliadwy'?



"MAE DIGON YN Y BYD AR GYFER ANGEN PAWB, OND NID AR GYFER TRACHWANT PAWB."
Mohandas Gandhi

## Heddwch a gwrthdaro

Ym mhob cymuned – o'r ysgol i'r lefel ryngwladol – mae yna wrthdaro ac anghydweld. O ganlyniad, mae angen parhaus i ddatblygu rheolau, cyfreithiau, arferion a systemau y gall pawb eu derbyn fel rhai rhesymol a theg. Felly, mae materion heddwch a gwrthdaro o reidrwydd ynghlwm wrth gyfiawnder cymdeithasol, cyfartaledd a hawliau.

**MYFYRIO**

- Ydi gwrthdaro o reidrwydd yn ddrwg? A oes angen ei ddatrys bob tro? Pam/pam lai?
- Sut ydych chi'n delio ag unrhyw wrthdaro sy'n codi yn y dosbarth?



"NID RHOI TERFYN AR DRAIS NEU RYFEL YN UNIG YW YSTYR HEDDWCH, OND RHOI TERFYN HEFYD AR YR HOLL BETHAU ERAILL SY'N BYGWTH HEDDWCH, MEGIS GWAHANIAETHU, DIFFYG CYDRADDOLDEB A THLODI."
Aung San Suu Kyi

# DINASYDDIAETH FYD-EANG O FEWN YMARFER DOSBARTH: FFRAMWAITH CYNLLUNIO

Diben y fframwaith hwn yw eich cynorthwyo i gynnwys prif elfennau dinasyddiaeth fyd-eang (a amlinellwyd ar dudalen 5) o fewn unedau gwaith ar amrywiaeth eang o bynciau – rhai sy'n ymddangos yn amlwg yn faterion byd-eang ac eraill nad ydynt mor amlwg ar yr olwg gyntaf. Am eglurhad llawn ac enghraifft o'i ddefnydd, gweler tudalen 10.

## GOFYN CWESTIYNAU

Am adnoddau a gweithgareddau, gweler tudalennau 12–13

Mae dysgu drwy gymryd rhan yn effeithiol yn dibynnu ar ryddid y dysgwyr i ofyn cwestiynau. Ond mae gofyn cwestiynau yn fan cychwyn pwysig am resymau eraill hefyd:

- Pan fydd dysgwyr yn llunio'u cwestiynau eu hunain, byddant yn cael mwy o berchenogaeth ar eu dysgu.
- Gall nodi'r cwestiynau allweddol roi'r strwythur priodol ar gyfer ymchwilio i bwnc.
- Drwy ofyn cwestiynau rydym yn dechrau unrhyw broses o newid; felly, mae cael sgiliau gofyn cwestiynau effeithiol yn arf hanfodol i alluogi pobl i wneud gwahaniaeth.

### MYFYRIO

Ble, ac ym mha ffyrdd, y gallwch chi gynorthwyo dysgwyr i wneud y canlynol?

- Canfod y cwestiynau allweddol i roi'r strwythur iddynt ymchwilio i'r mater dan sylw?
- Gofyn cwestiynau ynghylch y modd y mae'r dysgu'n berthnasol i fywyd go iawn?
- Dadansoddi'n feirniadol, bod yn ymwybodol o ragfarn a gwerthuso dadleuon o blaid ac yn erbyn?

## GWNEUD CYSYLLTIADAU

Am adnoddau a gweithgareddau, gweler tudalennau 14–15

Mae dinasyddiaeth fyd-eang yn cynnwys archwilio o leiaf bum math o gysylltiad:

- Ein dynoliaeth gyffredin – ein cysylltiadau â holl aelodau'r hil ddynol o ran ein tebygrwydd a'n hanghenion cyffredin.
- Ein cydgysylltiad byd-eang – ein cysylltiadau â phobl a lleoedd eraill drwy fasnach, technoleg, mudo, systemau gwleidyddol, yr amgylchedd a rannwn, ac yn y blaen.
- Cysylltiadau rhwng materion penodol, er enghraifft tlodi a'r newid yn yr hinsawdd.
- Y gyfatebiaeth rhwng llawer o faterion byd-eang a rhai yn ein hamgylchedd agos, er enghraifft rhannu adnoddau, neu wrthdaro, yn y dosbarth.
- Cysylltiadau rhwng dysgu cyfredol a dysgu blaenorol, yn ogystal â dysgu mewn meysydd eraill yn y cwricwlwm.

### MYFYRIO

Sut allwch chi roi mwy o gyfleoedd i'r dysgwyr archwilio'r canlynol?

- Y cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau o'u dysgu mewn gwahanol rannau o'r cwricwlwm
- Y gyfatebiaeth rhwng materion byd-eang a rhai sy'n berthnasol i'r dosbarth, er enghraifft, rhannu adnoddau, ystyried barn wahanol, gwrthdaro, cydweithio a pherthnasau grym
- Cyd-ddibyniaeth pobl a lleoedd, er enghraifft, yn sgil masnach, technoleg, mudo, systemau gwleidyddol neu'r amgylchedd a rannwn
- Materion yn ymwneud â pherthnasau grym, diffyg cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol – yn lleol ac yn fyd-eang

"DINESYDD BYD-EANG YW RHYWUN SY'N CYFRANNU I'R GYMUNED O FEWN Y BYD EHANGACH. NID YW'N MYND GYDA'R LLI; MAE'N BERSON YN EI RINWEDD EI HUN AC YN AWYDDUS I WNEUD GWAHANIAETH OND YN GWYBOD NA ALL WNEUD HYNNY AR EI BEN EI HUN."

Dysgwr o Ysgol Syr John Lawes

## ARCHWILIO SAFBWYNTIAU A GWERTHOEDD

Am adnoddau a gweithgareddau, gweler tudalennau 16–17



Rydym yn dehongli'r byd o'n cwmpas drwy lens ein cefndir diwylliannol, ein gwerthoedd a'n profiad ein hunain. O ganlyniad, fe geir amrywiol safbwyntiau ar unrhyw fater penodol, ac ni allwn gael dealltwriaeth lawn ynghylch unrhyw fater heb archwilio pob safbwynt. I wneud hyn, mae angen datblygu:

- ymwybyddiaeth fod ein 'gwybodaeth' yn aml yn cynnwys un safbwynt yn unig (er mai hwnnw yw'r pwysicaf o bosib)
- hunanymwybyddiaeth (h.y. bod yn ymwybodol o'n gwerthoedd a'n rhagdybiaethau ein hunain)
- parch at amrywiaeth
- sgiliau cyfathrebu effeithiol, yn cynnwys dadlau dros achos a gwrando gyda pharch ar safbwyntiau pobl eraill.

### MYFYRIO

Ystyriwch lle gallwch:

- gynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr o'u gwerthoedd a'u rhagdybiaethau – digyfnewid a chyfnewidiol – eu hunain
- herio persbectif a gwerthoedd cyfredol y dysgwyr
- cynorthwyo i ddatblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol sy'n galluogi'r dysgwyr i ddadlau eu hachos a gwrando gyda pharch ar safbwyntiau pobl eraill
- annog rhoi gwerth ar amrywiaeth yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth a pharch.

## YMATEB FEL DINASYDDION BYD-EANG GWEITHREDOL

Am adnoddau a gweithgareddau, gweler tudalennau 18–19



Hanfod addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yw'r ymrwymiad i alluogi dysgwyr i newid pethau er gwell. I wneud hyn, bydd angen:

- gwybodaeth i wneud dewisiadau gwybodus
- awydd i newid pethau
- y sgiliau i wneud hyn.

Nid yw addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn cynnwys dweud wrth bobl beth ddylent ei wneud. Yn hytrach, mae'n cynorthwyo'r dysgwyr i wneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain drwy werthuso'n feirniadol yr opsiynau sydd ar gael iddynt a goblygiadau posib eu dewisiadau.

### MYFYRIO

Ystyriwch sut a lle y gallwch roi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- wneud dewisiadau gwybodus yn seiliedig ar werthuso'n feirniadol yr opsiynau sy'n agored iddynt, a chynyddu'r hyder a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i weithredu'r dewisiadau hyn yn eu bywydau
- ymwneud â materion ynghylch cydraddoldeb a chyfiawnder amgylcheddol mewn ffordd sy'n grymuso'u gallu i herio'r rhai sydd mewn grym
- ystyried cyfrifoldebau a hawliau dynol, yn cynnwys y modd y maent yn defnyddio'u hawliau eu hunain ac yn gweithredu eu cyfrifoldeb tuag at eraill.

## ASESU'R DYSGU

Am adnoddau a gweithgareddau, gweler tudalennau 20–21



Mae asesu'r dysgu, sy'n rhan allweddol o'r cylch dysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang, yn cynnwys myfyrio ynghylch y cynnydd ar amrywiol lefelau:

- Beth rydym wedi'i ddysgu amdanom ein hunain, ein cymunedau, y byd yn ehangach a materion penodol?
- Beth rydym wedi'i ddysgu am gymryd rhan mewn newid ac achosi newid, a beth allen ni ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
- Pa sgiliau rydym wedi'u datblygu? Oedd yna unrhyw sgiliau y gwnaethon ni deimlo yr hoffem eu datblygu ymhellach?
- Beth rydym wedi'i ddysgu am y broses o ddysgu?

### MYFYRIO

Ystyriwch sut y gellid rhoi mwy o gyfleoedd i'r dysgwyr wneud y canlynol:

- myfyrio ynghylch dysgu blaenorol yn y maes hwn a cheisio llenwi'r bylchau
- ceisio ateb y cwestiynau a nodir uchod.

## DATBLYGU DINASYDDIAETH FYD-EANG YN EICH GWAITH DOSBARTH

Gall y fframwaith cynllunio ar dudalennau 8–9 eich cynorthwyo i ddatblygu dinasyddiaeth fyd-eang drwy addysgu unrhyw bwnc, bron. Sylwer:

- Nid gofyn i chi ail-lunio pob gwers fyddwch chi'n ei haddysgu yw'r syniad, ond eich bod yn ymwybodol ble gallwch chi wneud cysylltiadau byd-eang.
- Weithiau byddwch yn gallu datblygu cynlluniau gwaith a fydd yn defnyddio pob rhan o'r fframwaith; dro arall dim ond ambell ran o'r fframwaith fyddwch chi'n gallu ei defnyddio.
- Fframwaith cylchol ydyw, yn hytrach nag un llinellog – gellir defnyddio, datblygu neu ailddefnyddio unrhyw ran ohono ar unrhyw adeg. Isod, ceir enghraifft o'r modd y gellid defnyddio'r fframwaith ar gyfer cyflwyno dŵr fel pwnc.

### Asesu'r dysgu

Gallai cadw dyddiadur drwy gydol yr uned fod yn gymorth i'r dysgwyr werthuso eu dysgu eu hunain a'i effaith ar eu hagwedd tuag at ddŵr a'u defnydd ohono.

### Gofyn cwestiynau

Defnyddiwch ffotograffau neu ysgogiadau eraill i ofyn cwestiynau, er enghraifft: Ar gyfer beth rydyn ni'n defnyddio dŵr? Sut rydyn ni'n cael ein dŵr? Beth sy'n digwydd i'r dŵr rydyn ni'n ei ddefnyddio? Pwy biau 'dŵr'? Pam nad oes gan rai pobl fynediad at ddŵr glân? Beth yw canlyniadau dŵr budr?

### Ymateb fel dinasyddion byd-eang gweithredol

- Sylweddoli'r angen i arbed dŵr fel adnodd gwerthfawr.
- Cynnal archwiliad i weld faint o ddŵr a ddefnyddir gartref ac yn yr ysgol.
- Ystyried beth y gellid ei wneud i ddefnyddio dŵr mewn modd cynaliadwy a theg.
- Cysylltu â gwleidyddion ynglŷn â'r angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a galluogi gwledydd a chymunedau bregus i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- Cymryd camau i leihau allyriadau gartref ac yn yr ysgol.




### Gwneud cysylltiadau

- Mae gan bawb hawl i ddŵr glân.
- Anghenion a defnydd cyffredin o ddŵr ledled y byd.
- Y gylchred ddŵr fel enghraifft o gyd-ddibyniaeth fyd-eang.
- Sychder a llifogydd – eu hachosion a'u heffeithiau mewn gwahanol rannau o'r byd a sut y gellir eu cysylltu â'r hyn sy'n digwydd ymhell i ffwrdd (er enghraifft, drwy newid yn yr hinsawdd).
- Y cysylltiadau rhwng dŵr, iechyd a thlodi.

### Archwilio safbwyntiau a gwerthoedd

- Y modd y mae pobl yn diwallu eu hanghenion sylfaenol mewn ffyrdd gwahanol.
- Barn wahanol ynghylch y gofynion a'r anghenion mewn gwledydd gwahanol ac o fewn gwledydd.
- Rôl dŵr ym mywydau menywod a dynion, merched a bechgyn, a'r ffyrdd y mae'n ei amlygu ei hun mewn perthynas anghyfartal rhwng y ddau ryw.
- Y defnydd o ddŵr mewn diwylliant a chrefydd, a'r agweddau tuag at ddŵr a geir ynddynt.
- Safbwyntiau gwahanol ynghylch cael mynediad at ddŵr a 'pherchenogaeth' dŵr (er enghraifft, a ddylai Cymru orfod rhannu ei dŵr â Lloegr)

# CYMRYD RHAN YN Y DYSGU A GWNEUD PENDERFYNIADAU

Er mwyn bod yn ddinasyddion byd-eang effeithiol, rhaid i'r dysgwyr fod yn hyblyg, yn greadigol ac yn rhagweithiol. Mae angen iddynt allu datrys problemau, gwneud penderfyniadau, meddwl yn feirniadol, cyfathrebu syniadau'n effeithiol a gweithio'n dda o fewn timau a grwpiau. Mae'r sgiliau a'r priodoleddau hyn yn cael eu cydnabod fwyfwy fel rhai hanfodol ar gyfer llwyddiant mewn agweddau eraill ar fywyd yr 21ain ganrif hefyd, gan gynnwys llawer o fannau gwaith.

Ni ellir datblygu'r sgiliau a'r nodweddion hyn heb ddefnyddio dulliau dysgu gweithredol sy'n cynnwys dysgu drwy wneud a gweithio gydag eraill. Ond mae rhesymau eraill hefyd dros annog disgyblion i gymryd rhan yn y broses ddysgu a gwneud penderfyniadau:

- Mae popeth a wnawn yn yr ysgol yn cyfleu neges arbennig, felly mae angen inni amlygu'r gwerthoedd hynny rydym yn awyddus i'w hyrwyddo. Os ydym am gadarnhau'r gred fod pob aelod o'r hil ddynol yn gyfartal a phwysigrwydd trin pawb yn deg a chyda pharch, mae angen inni sicrhau bod y prosesau dysgu, yn ogystal â'r berthynas rhwng y dysgwyr a'u hathrawon, yn adlewyrchu ac yn atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn.
- Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant yn datgan bod gan blant yr hawl i gael eu clywed ar faterion sy'n effeithio arnynt.
- Dengys ymchwil fod y dysgwyr yn teimlo fod ganddynt fwy o reolaeth dros eu dysgu mewn ysgolion mwy democrataidd eu naws, a bod ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r ymddygiad yn well yn yr ysgolion hyn (gweler *Inspiring Schools: Impact and Outcomes: Taking up the Challenge of Pupil Participation*, Research Review for Carnegie Trust, 2006)

Nid yw hyn yn golygu bod rhaid i'r athrawon ddatblygu profiadau dysgu gweithredol newydd ar gyfer pob gwers. Ac nid yw'n golygu cael gwared ar ffiniau clir chwaith - i'r gwrthwyneb, mewn gwirionedd. Mae defnydd cyson o 'amser cylch' mewn llawer o ysgolion yn dangos y ddau bwynt hyn yn glir.

## Rôl athrawon

Mewn awyrgylch dosbarth lle ceir pwyslais ar gymryd rhan, hwylusydd yw'r athro/athrawes yn aml, a bydd yn cynorthwyo'r dysgwyr wrth iddynt ddysgu sut i asesu tystiolaeth, trafod, gwneud penderfyniadau gwybodus, datrys problemau a gweithio'n annibynnol a chydag eraill. Drwy greu amgylchedd gweithredol yn yr ystafell ddosbarth, mae rôl yr athro/athrawes a'r amgylchedd addysgu yn newid:

| O gael | I gael |
|---|---|
| Ystafell ddosbarth athro-ganolog | Ystafell ddosbarth ddysgwr-ganolog |
| Dysgu sy'n canolbwyntio ar gynnyrch | Dysgu sy'n canolbwyntio ar y broses |
| Yr athro/athrawes fel trosglwyddydd gwybodaeth | Yr athro/athrawes fel trefnydd gwybodaeth |
| Yr athro/athrawes fel 'rhywun sy'n gwneud pethau' ar gyfer y dysgwyr | Yr athro/athrawes fel 'galluogwr' |
| Ffocws pwnc-benodol | Ffocws ar ddysgu cyfannol |

*Ffynhonnell: Active Learning and Teaching Methods for Key Stage 3 ©2007 The Partnership Management Board*

## Rôl y dysgwyr

Dylai dosbarth gweithredol, gyda phwyslais ar gymryd rhan, olygu newid yn rôl y dysgwyr hefyd:

| O gael | I gael |
|---|---|
| Derbynwyr gwybodaeth yn oddefol | Dysgwyr gweithredol sy'n cymryd rhan |
| Ateb cwestiynau | Gofyn cwestiynau |
| "Bwydo â llwy" | Cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain |
| Cystadlu yn erbyn ei gilydd | Cydweithio i ddysgu |
| Eisiau dweud eu dweud | Gwrando'n weithredol ar farn eraill |
| Dysgu pynciau unigol | Cysylltu'r dysgu |

*Ffynhonnell: Active Learning and Teaching Methods for Key Stage 3 ©2007 The Partnership Management Board*

### MYFYRIO

Byddwch chi a'ch dysgwyr ar gamau gwahanol o ran profiad, hyder a datblygu sgiliau mewn perthynas â methodoleg weithredol. Felly, bydd angen bod yn ymwybodol o hyn wrth gynllunio gwersi. Ystyriwch y canlynol:

- Pa brofiad blaenorol sydd gan y grŵp o'r math hwn o ddysgu?
- Ble ddefnyddioch chi strategaethau dysgu yn eich addysgu blaenorol? Beth ddysgoch chi?
- Pa mor gyffyrddus ydych chi yn y math hwn o ddosbarth?
- Pa sgiliau ychwanegol sydd eu hangen arnoch? Sut allech chi eu datblygu?

## Adnodd arall ar gyfer ysgogi cwestiynau

Nod The Route Finder, sy'n seiliedig ar The Development Compass Rose gan Tide~Global Learning, yw ysgogi cwestiynau gan ddefnyddio adnoddau megis ffotograffau, arteffactau neu storïau. Mae'n sicrhau bod mater penodol yn cael ei ystyried o bob agwedd – economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a gwleidyddol. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gofnodi atebion ac/neu unrhyw gwestiynau pellach a godir. Gweler The Route Finder ar dudalen 94 (Adran 2) o'r adnodd *Get Global!*

**www.oxfam.org.uk/get-global**

# GOFYN CWESTIYNAU

### Canllawiau

- Dylid cynorthwyo'r dysgwyr i fod yn ymwybodol o fathau gwahanol o gwestiynau a'u rhinweddau.
- Dylid annog dysgwyr i archwilio'u rhagdybiaethau eu hunain. Gallwch eu cynorthwyo i wneud hyn drwy ofyn iddynt yn gyson: 'Pam?' a 'Beth wyt ti'n ei olygu wrth hynny?'
- Dylech hefyd gynorthwyo'r dysgwyr i wahaniaethu rhwng cwestiynau ffeithiol a'r rhai y bydd eu hatebion yn ymwneud â chred neu farn – boed yn foesegol, yn foesol, yn wleidyddol neu'n ysbrydol. Gall delweddau ac arteffactau fod yn ddefnyddiol i ysgogi cwestiynau gan y dysgwyr.

## Cadwyn pam-pam-pam


**Beth ydyw?**
Gellir defnyddio'r gadwyn i ysgogi'r dysgwyr i feddwl y tu hwn i argraffiadau arwynebol ac ystyried achosion sylfaenol unrhyw fater. Gall fod yn ffordd effeithiol iawn o gysylltu'r lleol â'r byd-eang gydag ychydig o arweiniad, neu heb arweiniad, gan yr athro/athrawes, ac eithrio gofyn cwestiynau'n dechrau â'r gair 'pam' dro ar ôl tro.

**Trefn y dosbarth**
Gweithio fesul dau neu dri fyddai orau, neu gellid ei wneud fel gweithgaredd trafod i'r dosbarth cyfan. Byddai siart troi neu bapur siwgr, ac ysgrifbinnau neu bapur nodiadau gludiog yn ddefnyddiol.

**Sut i'w weithredu?**
**1** Ysgrifennwch enw'r mater dan sylw mewn blwch ar ochr chwith y dudalen. Yna gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr holl resymau uniongyrchol sydd wedi achosi'r broblem. Dylid ysgrifennu (neu ddarlunio) y rhain mewn blychau mewn colofn gyfagos, gan ddefnyddio saeth i'w cysylltu â blwch y mater dan sylw.

**2** Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am resymau posibl y tu hwnt i'r rhestr gyntaf o achosion. Efallai y bydd sawl ffactor yn cyfrannu at bob rheswm. Ail-wnewch y broses gynifer o weithiau ag y gellir gyda'r mater dan sylw, gan ddefnyddio colofn newydd bob tro, i'r dde o'r golofn flaenorol. Yn y diwedd bydd gennych siart llif, a fydd yn dangos cymhlethdod y mater a'r gwahanol raddfeydd o achosion. Yna gallech ofyn i'r dysgwyr wahaniaethu rhwng y cysylltiadau y mae ganddynt dystiolaeth ohonynt a'r rhai nad oes ganddynt dystiolaeth ohonynt.

**3** Unwaith y bydd y broses wedi cyrraedd ei therfyn, edrychwch ar y blychau ar yr ochr dde, ac annog y dysgwyr i ofyn: 'Ydi hi'n deg fod hyn yn digwydd?' a 'Beth ellid ei wneud i newid pethau?'



## Cwestiynu ffotograffau

**Beth ydyw?**

Gall ffotograffau gael dylanwad enfawr arnom wrth inni lunio ein syniadau amdanom ein hunain, am bobl eraill ac am y byd yn ehangach. Ond dyw'r lluniau a welwn ddim wastad yn dweud yr holl stori. Gall y delweddau a welwn yn y cyfryngau fod yn unochrog neu gyfleu stereoteipiau negyddol yn barhaus. Felly, gellir dadlau bod llythrennedd gweledol cyn bwysiced i'r dysgwyr â llythrennedd testunol. Yn y gweithgaredd canlynol bydd dysgwyr yn cwestiynu ffotograffau (neu arteffactau), yn ogystal â'u rhagdybiaethau yn eu cylch.

**Trefn y dosbarth**

Bydd y dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau o dri neu bedwar. Bydd angen bwrdd ar bob grŵp.

**Sut i'w wneud?**

Bydd y dysgwyr yn edrych ar y ffotograff neu'r arteffact yn ofalus ac yn trafod yr hyn a wyddant amdano. Yna, maen nhw'n ystyried beth yr hoffent ei wybod, ac yn ysgrifennu'r holl gwestiynau y gallant feddwl amdanynt (gellid rhoi'r ffotograff neu'r arteffact ar ddarn o bapur siwgr ac ysgrifennu'r cwestiynau o'i amgylch). Yna, gallech ddefnyddio'r Route Finder (gweler 'Adnodd arall ar gyfer ysgogi cwestiynau' ar dudalen 12) i roi'r cwestiynau mewn gwahanol gategorïau a gweld a oes yna unrhyw drywydd nad yw'r dysgwyr wedi'i archwilio gyda'u cwestiynau.

Er mwyn annog y dysgwyr i gwestiynu eu rhagdybiaeth ynglŷn â ffotograff, gallech ofyn:

- Ble mae hwn? A yw yn y Deyrnas Unedig? Pam rydych chi'n meddwl hynny?
- Beth sy'n digwydd y tu hwnt i'r ffrâm?
- Pam rydych chi'n meddwl hynny? Gallai'r dysgwyr osod y ffotograff yng nghanol darn o bapur plaen a thynnu llun o'r hyn a dybiant sydd y tu hwnt i'r ffrâm o amgylch y ffotograff. Neu, os ydych am gymharu syniadau'r dysgwyr â'r hyn sy'n cael ei ddangos yn y ffotograff, gallech ddangos rhan yn unig o'r ddelwedd wreiddiol a gofyn iddyn nhw ei hymestyn.
- Beth ddigwyddodd cyn i'r llun gael ei dynnu a beth allai fod wedi digwydd wedyn? Pam rydych chi'n meddwl hynny?

## Coeden drafod

**Beth ydyw?**


Mae hwn yn un dull o strwythuro ymholiad i annog y dysgwyr i archwilio achosion, effeithiau (neu symptomau) a'r atebion i'r mater dan sylw.

**Trefn y dosbarth**

Mewn grwpiau y bydd y gweithgaredd hwn yn gweithio orau ond fe ellid ei wneud fel tasg unigol.

**Sut i'w wneud?**

- Bydd y dysgwyr yn tynnu llun o amlinelliad coeden ffrwythau.
- Yna, byddan nhw'n labelu'r goeden fel a ganlyn: y mater sydd i'w ystyried ar y boncyff, achosion y mater ar y gwreiddiau, ac effeithiau'r mater (neu ei symptomau) ar y canghennau.
- Gellid gwneud y gweithgaredd hwn un ai cyn i'r dysgwyr ymchwilio i'r mater, fel ffordd o gynrychioli'r hyn maent eisoes yn ei wybod, neu ar ddiwedd yr ymchwil fel dull o gyflwyno'u canfyddiadau.



## ADNODDAU ERAILL AR GYFER GWNEUD CYSYLLTIADAU

**Gweithgareddau ar y gadwyn nwyddau/gyflenwi**
Mae llawer o weithgareddau ac adnoddau ar gael sy'n dangos y cadwyni nwyddau byd-eang sy'n cysylltu nwyddau sy'n gyffredin yn ein bywydau o ddydd i ddydd (er enghraifft, bwydydd, dillad, a ffonau clyfar) â phobl mewn mannau pell. Gweler, er enghraifft, yr adnoddau ar fananas, coco a chotwm ar wefan Masnach Deg **fairtradewales.com/we/resources**

# GWNEUD CYSYLLTIADAU

### Canllawiau

- Gall themâu sy'n gyffredin i fywydau pobl ifainc ledled y byd – dŵr, bwyd, cludiant, cartrefi, ysgolion, gwastraff, gwrthdaro a chwarae, er enghraifft – fod yn fannau cychwyn da. Mae defnyddio thema yn ffordd o ganolbwyntio meddyliau'r dysgwyr ar yr hyn maent yn ei rannu â phobl ifainc mewn gwledydd eraill, cyn iddynt symud ymlaen i ystyried eu profiadau gwahanol o'r agweddau hyn ar eu bywydau.
- Mae'r syniad o daith yn ddefnyddiol iawn ar gyfer gwneud cysylltiadau lleol–byd-eang. Mae teithiau pobl a nwyddau (bananas, er enghraifft) yn dangos ystyr rhyng-ddibyniaeth fyd-eang yn fyw iawn.
- Bydd angen gwneud cysylltiadau hefyd rhwng gwahanol faterion. Fel arfer, bydd ymchwilio i unrhyw fater, megis anghyfartaledd, sydd o bwys yn lleol ac yn fyd-eang yn datgelu gwe o gysylltiadau sy'n cynnwys ffactorau pwysig eraill.
- Er y dylech osgoi gorsymleiddio cymhlethdod materion byd-eang, mae'n bosib gwneud llawer o gysylltiadau defnyddiol rhwng pynciau byd-eang a bywyd yn y dosbarth o ddydd i ddydd; er enghraifft, gellid ystyried rhannu offer ochr yn ochr â chyfiawnder cymdeithasol.

## Olwyn canlyniadau

**Beth ydyw?**
Math o fap meddwl yw olwyn canlyniadau, a gall gynorthwyo'r dysgwyr i feddwl am ganlyniadau digwyddiadau, gweithred neu fater penodol. Yn ogystal â gwneud cysylltiadau rhwng achos ac effaith, gall olwynion canlyniadau hefyd fod o gymorth i'r dysgwyr werthfawrogi arwyddocâd byd-eang gweithredoedd lleol, ac arwyddocâd lleol faterion neu dueddiadau byd-eang.

**Trefn y dosbarth**
Gellir gwneud y gweithgaredd hwn fel tasg unigol, mewn grwpiau bychain neu fel dosbarth cyfan.

**Sut i'w wneud?**


**1** Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu enw'r prif ddigwyddiad neu weithred y tu mewn i gylch yng nghanol y dudalen.

**2** Mewn cylch arall, sydd wedi'i gysylltu â'r prif gylch drwy linell unigol, bydd y dysgwyr yn ysgrifennu pob canlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad. Bydd y dysgwyr yn ceisio meddwl am gynifer o ganlyniadau uniongyrchol â phosibl. Dylid trefnu'r rhain yn gylch o gwmpas y prif gylch.

**3** Yna bydd y dysgwyr yn ystyried canlyniadau'r canlyniadau hyn. Unwaith eto, bydd y rhain yn cael eu hysgrifennu o fewn cylchoedd sydd wedi'u cysylltu â'r canlyniadau uniongyrchol – ac felly ymlaen. Gall y dysgwyr liwio'r cylchoedd, gan ddibynnu pa un a yw'r canlyniad yn un da neu ddrwg.

**4** Siaradwch am eu rhagdybiaethau gyda'r dysgwyr, gan ofyn iddynt a ellir eu cyfiawnhau. Trafodwch sut y gallant ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y ffeithiau.

**5** Gellid trafod ymhellach drwy roi ystyriaeth ddyfnach i unrhyw faterion sydd wedi codi, ac annog y dysgwyr i feddwl beth ellid ei wneud i dorri cadwyni canlyniadau negyddol.



# Datrys y dirgelwch

### Beth ydyw?

Yn y gweithgaredd hwn, bydd y dysgwyr yn rhoi 'cliwiau' sydd wedi'u hysgrifennu ar ddarnau gwahanol o bapur at ei gilydd i ateb cwestiwn. Mae'n adnodd gwych ar gyfer datblygu sgiliau meddwl a datrys problemau, yn ogystal â datblygu llythrennedd, ac mae hefyd yn dda iawn ar gyfer archwilio cydgysylltiadau byd-eang.

### Trefn y dosbarth

Mewn grwpiau bychain y bydd y gweithgaredd hwn yn gweithio orau. Bydd angen i bob grŵp gael arwyneb sy'n ddigon mawr iddynt allu symud tua 30 o gardiau o gwmpas.

### Sut i'w wneud?

**1** Yn ddelfrydol, dylid seilio gweithgaredd datrys y dirgelwch ar sefyllfaoedd o fywyd go iawn. Gall storïau o bapurau newydd roi'r holl wybodaeth sydd ei angen arnoch i lunio eich sefyllfa eich hun.

**2** Eglurwch i'r dysgwyr mai'r dasg yw datrys y dirgelwch, gan roi'r cwestiwn canolog y mae angen iddynt ei ateb. Eglurwch y byddant yn cael nifer o gliwiau, gyda rhai ohonynt yn fwy defnyddiol na'i gilydd, efallai. Pwysleisiwch na fydd datrys y dirgelwch yn unig yn ddigon – bydd angen iddynt fod yn barod i egluro i weddill y grŵp (neu drwy ysgrifennu) sut y gwnaethon nhw ei ddatrys. Gallech roi strwythur iddynt ei ddefnyddio i egluro'u rhesymu – ar ffurf ffrâm ysgrifennu, efallai, neu ddiagram cadwyn pam-pam-pam (gweler tudalen 12).

**3** Wedi iddynt drafod yn eu grwpiau, dylent gyflwyno a chyfiawnhau eu hatebion, gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd o'u blaenau. Trafodwch yr achosion a'r effeithiau a nodwyd ganddynt a'r cysylltiadau maent wedi'u gwneud. Gallech hefyd ofyn i'r dysgwyr sut aethon nhw ati i drefnu eu gwybodaeth, a sut ddaeth y grŵp i benderfyniad.

**4** Yn ddelfrydol, yn dilyn y gweithgaredd hwn, dylid trafod sut y gallai'r dysgwyr eu hunain ymateb i'r mater dan sylw (gweler tudalennau 18–19 am syniadau).

Mae'r enghraifft isod yn ffordd o gael y dysgwyr i ystyried natur gymhleth materion byd-eang. Roedd yna nifer o resymau pam y bu'n rhaid i Runa roi'r gorau i gynnal ei stondin, ac mae rhesymau da pam mae Shafraz yn teithio i'r ysgol mewn car er gwaetha'r effaith ar yr amgylchedd. Er bod y gweithgaredd yn ymdrin â'r pwnc ar lefel bersonol, nid awgrymu mai gweithredoedd un person sy'n gyfrifol am broblem fyd-eang yw'r bwriad, ond dangos sut y mae gweithredoedd llawer o bobl, mewn mannau gwahanol, yn cyfrannu tuag at y broblem yn ogystal â'r atebion. Mae angen pwysleisio hyn, er mwyn sicrhau nad yw'r dysgwyr yn teimlo'n euog am broblemau'r byd.

**Enghraifft: Pam y daeth stondin Runa i ben? Neu: Sut mae bywydau Shafraz a Runa wedi'u cysylltu?**

| | | |
|---|---|---|
| Mae Shafraz yn teithio i'r ysgol bob dydd yng nghar ei rieni. | Mae tywydd stormus diweddar wedi'i gwneud yn fwy anodd i geir, bysiau a lorïau gyrraedd Cox's Bazaar. | Credir bod newid yn yr hinsawdd yn cynyddu'r posibilrwydd o gael tywydd eithafol. |
| Mae Bangladesh yn ne Asia. Mae'n un o'r deg gwlad sydd mewn mwyaf o berygl os bydd lefel y môr yn codi. | Mae lefel y môr yn codi o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. | Dywed rhieni Shafraz fod y traffig yn Sparkbrook yn ei gwneud hi'n rhy beryglus i gerdded neu feicio i'r ysgol. |
| Mae stondin Runa wedi gorfod cau. | Un o'r nwyon tŷ gwydr sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd yw carbon deuocsid. | Mae Runa yn gwerthu ffrwythau a llysiau i ymwelwyr, gweithwyr a gyrwyr lorïau sy'n teithio i mewn ac allan o Cox's Bazaar. |
| Mae Shafraz yn byw dau gilometr o'r ysgol yn Sparkbrook, Birmingham. | Yr wythnos diwethaf, dioddefodd stondin Runa lifogydd am yr eildro. | Ceir yw'r rhan fwyaf o draffig Birmingham. |
| Y traethau tywod sy'n denu ymwelwyr i Cox's Bazaar. | Mae stormydd garw a glaw wedi gwneud difrod i'r ffordd sy'n arwain i Cox's Bazaar. | Mae ceir yn cynhyrchu carbon deuocsid wrth losgi petrol. |
| Tref lan môr ar arfordir de-ddwyrain Bangladesh ydi Cox's Bazaar. | Mae stondin Runa ar y briffordd sy'n arwain i Cox's Bazaar. Mae'r ffordd lai na 0.5m uwchben lefel y môr. | Mae'r bws i ysgol Shafraz yn y bore yn aml yn cael ei rwystro gan draffig trwm. |

*Ffynhonnell: Mae'r gweithgaredd hwn yn seiliedig ar 'Lessons in Sustainability' gan Tide~Global Learning, 2003.*

# ARCHWILIO SAFBWYNTIAU A GWERTHOEDD

## Canllawiau

- Sefydlwch rai rheolau sylfaenol sy'n creu amgylchedd diogel y gall y dysgwyr fynegi eu barn ynddo. Yn ddelfrydol, dylai'r dosbarth gynorthwyo i lunio'r rheolau hyn, gan y bydd hynny'n annog y dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu proses ddysgu eu hunain.
- Does dim rhaid i drafodaethau ddod i gasgliadau na chytundeb.
- Gall rhannu'r dosbarth yn grwpiau bychain fod o gymorth i ddysgwyr sydd heb fod yn hyderus fynegi barn. Gallech ystyried gofyn i aelodau pob grŵp benderfynu ar rôl y gwahanol aelodau, er enghraifft, rhywun i gymryd nodiadau, un arall i gadw amser, a dewis llefarydd.
- Ystyriwch eich rôl eich hun yn ofalus. Mae'r blwch ar y dde yn rhoi arweiniad.


## Continwwm barn

### Beth ydyw?

Mae hon yn ffordd syml o annog y dysgwyr i ystyried eu safbwynt ar ddwy farn wahanol ynghylch mater penodol. Gall fod yn ddull defnyddiol o archwilio materion cymhleth a safbwyntiau gwahanol.

### Trefn y dosbarth

Yn ei ffurf fwyaf sylfaenol, yr unig beth sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd hwn yw lle ar gyfer llinell ddi-dor (go iawn neu ddychmygol) o un ochr i'r ystafell ddosbarth i'r llall. Ffordd arall o'i wneud fyddai hongian darn o linyn (tuag uchder eich gwasg) rhwng dwy wal sydd gyferbyn â'i gilydd, a gwahodd y dysgwyr i ddod at y llinyn yn eu tro a defnyddio pegiau i nodi eu barn.




### Sut i'w wneud?

Dylai'r canllawiau hyn alluogi pawb i gymryd rhan mewn modd digynnwrf:

**1** Cyflwynwch y farn rydych am i'r dysgwyr ei hystyried, er enghraifft, 'Dylai pobl orfod talu am fagiau plastig mewn siopau' ac amlinellwch ddau safbwynt gwahanol (cytuno'n gryf vs anghytuno'n gryf). Eglurwch y bydd barn pawb rywle ar y llinell rhwng y ddau begwn, ac nad oes yna atebion cywir neu anghywir o anghenraid.

**2** Eglurwch y rheolau, er enghraifft gall y dysgwyr ddewis pa un a ydynt am gymryd rhan ai peidio; yr un sy'n sefyll wrth y llinell yw'r unig un sydd â'r hawl i siarad ar y pryd; dim ymateb – mewn geiriau na dim arall – gan weddill y grŵp.

**3** Gall unrhyw ddysgwr ddechrau drwy sefyll yn y safle ar y llinell sy'n cynrychioli ei farn. Mae'r gwirfoddolwr yn dweud ychydig eiriau wrth y dosbarth yn egluro pam mae wedi mabwysiadu'r safbwynt hwnnw. Yna caiff y broses ei hailadrodd, gyda'r dysgwyr dethol yn egluro'u barn fesul un.

**4** Os yw rhai dysgwyr yn amharod i gymryd rhan, gallech awgrymu eu bod yn nodi eu safle ar y llinell heb ddweud dim.

**5** Pan fydd pawb sydd eisiau siarad wedi gwneud hynny, dywedwch wrth y dysgwyr y gallan nhw newid eu safle ar y llinell yn sgil y dadleuon maent wedi'u clywed.

**6** Yna, trafodwch gyda'r dysgwyr. Faint o'r dysgwyr newidiodd eu safleoedd? Beth a'u harweiniodd i newid eu meddyliau? Beth maen nhw wedi'i ddysgu o'r broses? I annog y dysgwyr i ymarfer sgiliau trafod a negydu, gallech eu rhannu'n grwpiau a gofyn iddynt lunio barn fel grŵp. Yna, gall pob grŵp anfon un cynrychiolydd i nodi'r man ar y llinell sy'n cynrychioli barn y grŵp orau. Mae hyn hefyd yn haws o ran rheoli'r dosbarth, gan y bydd llai o ddysgwyr heb fod yn eistedd yn eu seddau ar unrhyw adeg.

### DEWISWCH EICH RÔL YN OFALUS

Pan fydd yn ymdrin â materion dadleuol, gall yr athro/athrawes chwarae un o blith sawl rôl:

**Wedi penderfynu ar un safbwynt** – mae'r athro/athrawes yn rhydd i rannu ei farn/ei barn. Bydd angen bod yn ofalus gan y gall hyn arwain at drafodaeth unochrog.

**Gwrthrychol neu academaidd** – bydd yr athro/athrawes yn egluro pob safbwynt posib heb fynegi barn.

**'Dadleuydd ar ran y diafol'** – bydd yr athro/athrawes yn fwriadol yn cymryd safbwynt sy'n groes i safbwynt pob disgybl, waeth beth fo ei farn ei hun. Mae'r dull hwn yn gymorth i sicrhau bod pob barn yn cael ei hystyried ac yn herio cred ddechreuol pob dysgwr.

**Wedi mynegi diddordeb** – bydd yr athro/athrawes yn mynegi ei safbwynt fel y gall y dysgwyr ystyried rhagfarn ddiweddarach, yna bydd yn cyflwyno pob safbwynt mor wrthrychol â phosib.

**Eiriolwr** – bydd yr athro/athrawes yn cyflwyno pob safbwynt posib ac yna'n gorffen drwy roi ei safbwynt ei hun, gyda rhesymau.

**Cadeirydd diduedd** – bydd yr athro/athrawes yn sicrhau bod pob safbwynt yn cael ei gynrychioli, drwy ddatganiadau'r dysgwyr neu ffynonellau cyhoeddedig. Mae'r athro/athrawes yn gweithredu fel hwylusydd ond nid yw'n mynegi barn.

Gall pob un o'r rolau hyn fod yn addas ar adegau penodol, ac mae i bob un ei manteision a'i hanfanteision.

Meddyliwch yn ofalus pa rôl fyddwch chi'n ei chymryd ym mhob sefyllfa, a pham.

# Chwarae rôl

### Beth ydyw?

Does dim angen llawer o gyflwyniad i chwarae rôl. Mae'n ddull hyblyg y gellir ei ddefnyddio mewn sawl ffurf ac mae'n effeithiol ar gyfer pob oedran.

### Trefn y dosbarth

Bydd hyn yn dibynnu pa fath o chwarae rôl a ddefnyddir. Ond bydd yn aml yn gofyn am drefn lle gall y dysgwyr weithio'n rhwydd mewn grwpiau bychain yn y dosbarth.

### Sut i'w wneud?

Mae defnyddio chwarae rôl yn seiliedig ar storïau yn un ffordd o blith llawer o alluogi'r dysgwyr i weld y byd drwy lygaid pobl eraill. Dyma ddau ddull posib:

- **Rhewi'r ffrâm a thracio'r meddwl**: Bydd dysgwyr yn gwrando ar ran o stori ac yna'n ei hactio. Bob hyn a hyn, maen nhw'n rhewi'r digwydd ac yn trafod beth maen nhw'n ei wneud ac yn ei deimlo ar y pryd. Yna, maen nhw'n ystyried beth fydd yn digwydd nesaf. Ac yna, gallant actio'r hyn maen nhw wedi'i ddarogan a chyfeirio at y stori i weld beth ddigwyddodd mewn gwirionedd. Mae'r dull hwn yn gweithio'n dda gyda storïau o fywydau pobl o'r gorffennol a'r presennol.
- **Y gadair 'boeth'**: Mae hon yn ffordd dda o ddatblygu sgiliau gofyn cwestiynau yn ogystal ag archwilio gwerthoedd a safbwyntiau. Bydd y dysgwyr yn penderfynu pa gwestiynau yr hoffent eu gofyn i un o'r cymeriadau yn y stori. Yna, bydd un disgybl yn eistedd yn y 'gadair boeth', ac yn chwarae rhan y cymeriad hwnnw, a bydd y lleill yn cymryd eu tro i ofyn eu cwestiynau.

Gyda phob ffurf ar chwarae rôl, mae'r ôl-drafodaeth yn hollbwysig. Mae hyn yn golygu y bydd y dysgwyr yn camu allan o'u rôl i archwilio sut roedden nhw'n teimlo o fewn y rôl, a pham.

# Meddwl yn feirniadol ar-lein

### Beth ydyw?

Dull o ddefnyddio'r rhyngrwyd sy'n annog dysgwyr i edrych ar wefannau mewn modd beirniadol yw hwn. Fel unrhyw ffynhonnell gwybodaeth, mae angen trin gwefannau yn ofalus ac yn feirniadol. Mewn gwirionedd, mae'r hyn a gyflwynir fel ffaith yn aml yn cynrychioli un safbwynt neu set o werthoedd yn unig.

### Trefn y dosbarth

Gall y gweithgaredd hwn weithio gydag unrhyw drefn o fewn y dosbarth ond rhaid cael cysylltiad â'r rhyngrwyd.

### Sut i'w wneud?

Gallech roi templed i'r dysgwyr ei ddefnyddio pryd bynnag y byddan nhw'n defnyddio gwefan, neu gallech ofyn i ddysgwyr hŷn lunio'u rhestr eu hunain o gwestiynau y gallent eu defnyddio i werthuso gwefannau. Gallai'r cwestiynau gynnwys:

- Pwy sy'n gyfrifol am gynnal y wefan?
- Beth yw eu nod?
- Pa argraff mae'r wefan yn ei rhoi o'r sefydliad/y person sy'n gyfrifol amdani? Sut mae'n gwneud hyn?
- Pa neges mae'r wefan yn ceisio'i chyfleu? Sut mae'n defnyddio iaith a delweddau i wneud hyn?
- Beth mae'r wefan yn ei chyflwyno – ffeithiau ynteu safbwyntiau?
- Sut ydych chi'n ymateb i'r wefan? Pam?
- Pwy sy'n darparu'r wybodaeth?

### SYNIADAU ERAILL AR GYFER ARCHWILIO SAFBWYNTIAU A GWERTHOEDD

**Gemau efelychu**
Gall y rhain fod yn ddeniadol iawn, a rhoi cyfleoedd da i ddysgu am faterion byd-eang mewn dyfnder. Mae llawer ohonynt ar gael ar **www.globaldimension.org.uk**

**Athroniaeth i Blant**
Methodoleg ardderchog i annog dysgwyr i archwilio amrywiaeth eang o safbwyntiau, ac un y gellir ei defnyddio gyda phob oedran. Gweler **www.sapere.org.uk**

**Open Spaces for Dialogue and Enquiry**
Dull defnyddiol iawn o ddatblygu 'llythrennedd beirniadol'. Am ddeunyddiau canllaw ac adnoddau dosbarth, gweler **www.osdemethodology.org.uk**

Gellir cael canllawiau pellach ar archwilio safbwyntiau a gwerthoedd yng nghyhoeddiad Oxfam, T*eaching Controversial Issues*, sydd ar gael i'w lawrlwytho, yn rhad ac am ddim, o'r wefan: **www.oxfam.org.uk/guides**

# YMATEB FEL DINASYDDION BYD-EANG GWEITHREDOL

## Canllawiau

Cofiwch nad yw addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang ddim yn golygu dweud wrth bobl beth ddylent ei wneud. Yn hytrach, mae'n cynorthwyo'r dysgwyr i feddwl yn feirniadol am yr holl opsiynau sy'n agored iddynt.

- Anogwch y dysgwyr i ystyried effeithiau byd-eang gweithredoedd lleol, drwy ddefnyddio'r olwyn canlyniadau a ddisgrifir ar dudalen 14, efallai.
- Byddwch yn ymwybodol fod penderfynu peidio â gwneud rhywbeth yn dal yn weithred, ac y bydd i hynny ganlyniadau yn union fel pob gweithred arall.
- Anogwch y dysgwyr i feddwl yn nhermau gweithredu cyfrifol bob amser, gweithredu sy'n ystyried pethau megis y gyfraith, polisïau ysgolion a materion moesegol. Bydd angen iddynt ystyried holl ganlyniadau posib eu gweithredoedd. Yma eto, gallech ddefnyddio'r olwyn canlyniadau.
- Rhan bwysig o'r broses ddysgu yw myfyrio ynghylch yr hyn sydd wedi'i ddysgu drwy weithredu.
- Mae dinasyddiaeth fyd-eang weithredol yn wleidyddol, oherwydd mae'n golygu gwneud penderfyniadau ynglŷn â newid pethau a sut y dylid gwneud y newid hwnnw. Er hynny, ni ddylai fod ynghlwm wrth wleidyddiaeth plaid, gan y byddai hynny'n golygu cyfaddawdu o ran y meddwl a'r cwestiynu beirniadol sy'n ganolog i ddinasyddiaeth fyd-eang.

## Dyfodol delfrydol

**Beth ydyw?**

Dull o fapio'r meddwl yw hwn, yn seiliedig ar waith gan yr Athro David Hicks; mae'n annog y dysgwyr i fynegi eu syniadau – cadarnhaol a negyddol – ynglŷn â'r dyfodol. Gellir ei ddefnyddio i archwilio'r dyfodol yn gyffredinol, ar lefel bersonol, leol, genedlaethol a byd-eang (gan gofio bod y rhain i gyd yn perthyn i'w gilydd). Gellir ei ddefnyddio hefyd i edrych ar fater penodol, er enghraifft, datblygiad biodanwydd, cnydau a'u genynnau wedi'u haddasu (GM) neu anghyfartaledd byd-eang.

**Trefn y dosbarth**


Mae'r gweithgaredd hwn yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o sefyllfaoedd dosbarth gan mai fel gwaith adfyfyrio unigol mae'n gweithio orau – er y gellir mynd ati wedyn i lunio siart o ymatebion personol y dosbarth cyfan.

**Sut i'w wneud?**

Bydd y dysgwyr yn llunio llinell amser, gan fynd yn ôl cyn belled ag sydd ei angen ar gyfer y pwnc dan sylw. Mae'r llinell yn fforchio yn y presennol (gweler y diagram). Ar y llinell amser isaf, bydd y dysgwyr yn rhoi'r pethau maen nhw'n meddwl fydd yn debygol o ddigwydd mewn perthynas â'r mater. Yn y cyfamser, ar hyd y llinell amser uchaf, gall y dysgwyr ychwanegu'r pethau y byddai'n well ganddynt eu gweld yn digwydd.

Yn y drafodaeth sy'n dilyn, dylid ystyried y cwestiynau canlynol:

- Pa newidiadau fydd debycaf o ddigwydd?
- Beth fyddai'n well gennych chi'n bersonol ei weld yn digwydd?
- Pwy arall sy'n rhannu yr un weledigaeth ar gyfer y dyfodol?
- Beth sydd angen ei newid fel y bydd y dyfodol a ddymunir yn dod yn wir, yn hytrach na'r un tebygol? Pwy sydd wrthi'n gweithio i greu dyfodol o'r fath? Sut allwn ni gyfrannu i'r dyfodol gwell hwnnw?



## Llinell amser afon

### Beth ydyw?

Adnodd cynllunio i gynorthwyo'r dysgwyr i gofnodi eu cynnydd tuag at nod penodol.

### Trefn y dosbarth

Ar gyfer y gweithgaredd hwn, bydd angen arwynebau mawr i'r grwpiau weithio o'u cwmpas.

### Sut i'w wneud?

Ar ddarn mawr o bapur, bydd y dysgwyr yn tynnu llun siâp afon. Gellid gwneud y gweithgaredd hwn hefyd fel dosbarth cyfan, gan ddefnyddio sawl darn o bapur o siart troi neu bapur siwgr wedi'u glynu wrth ei gilydd. Mae'r afon yn cynrychioli'r camau tuag at gyflawni nod penodol, mewn trefn gronolegol. Tarddiad yr afon yw'r sefyllfa ar hyn o bryd, a'r nod yw aber yr afon. Mae'r isafonydd sy'n ymuno â'r afon yn cynrychioli'r gweithredoedd fydd angen eu gwneud, yn y drefn honno. Gellir dangos rhwystrau posib fel cerrig mawr, rhaeadrau a throbyllau. Wrth weithio tuag at y nod, gellir ychwanegu at yr afon.

## Graddio cardiau gweithredu

### Beth ydyw?

Yn y gweithgaredd hwn anogir y dysgwyr i wyntyllu amrywiol opsiynau ar gyfer gweithredu, ac yna ystyried eu rhinweddau. Mae'n datblygu parch tuag at eraill a sgiliau cydweithio, meddwl yn feirniadol a gwneud penderfyniadau.

### Trefn y dosbarth

Bydd angen i'r dysgwyr allu gweithio mewn grwpiau o dri neu bedwar, a bydd angen bwrdd ar bob grŵp fel y gallant symud naw cerdyn gweithredu o gwmpas arno.

### Sut i'w wneud?

**1** Mae'r grwpiau'n nodi hyd at naw gweithred bosib y gallent ei gwneud mewn ymateb i fater penodol. Maen nhw'n ysgrifennu enw pob gweithred, fesul un, ar nodyn gludiog (neu ddarn o bapur). Neu, gallant weithio gyda naw dewis 'parod' – gall y rhain fod yn rhai cyffredinol ac yn gymwys i'r rhan fwyaf o bynciau (gweler yr enghraifft), neu'n benodol i'r mater dan sylw. Os byddwch yn defnyddio cardiau parod, ychwanegwch rai cardiau gwag fel y gall y dysgwyr roi eu syniadau eu hunain yn lle'r rhai sydd ar y cardiau.

**2** Pwysleisiwch nad oes ateb cywir nac anghywir – bydd manteision ac anfanteision i bob opsiwn, a dylai'r dysgwyr eu graddio o'r gorau i'r gwaethaf, yn eu barn nhw. Eglurwch sut y bydd disgwyl i'r grwpiau gyflwyno'u hymatebion – er enghraifft, eu tri dewis uchaf, gyda rhesymau, neu eu dewis cyntaf ac olaf, gyda rhesymau.

**3** Yna, bydd y grwpiau yn graddio'u dewisiadau ar ffurf diemwnt, fel y dangosir isod. Pan fydd y rhan fwyaf o'r grwpiau wedi cytuno ar eu trefn, gofynnwch i'r dosbarth aros am ychydig a chynnig eu hadborth. Ystyriwch eu dewisiadau a'u rhesymau drostynt. Yna, trafodwch y meini prawf a ddefnyddiwyd ganddynt i wneud eu penderfyniadau, er enghraifft, dichonoldeb, addasrwydd, effeithiolrwydd neu gost.

<table>
<tr>
<td rowspan="3">GRADDIO NAW AR FFURF DIEMWNT<br>1<br>2 2<br>3 3 3<br>4 4<br>5<br>Pwrpas graddio naw ar ffurf diemwnt yw ysgogi trafodaeth neu fyfyrio ynghylch pwysigrwydd cymharol amrywiol ffactorau. Gellir defnyddio'r dull hwn o raddio mewn llawer o gyd-destunau gwahanol lle mae angen diffinio, blaenoriaethu neu wneud penderfyniadau. Er enghraifft, gellid ei ddefnyddio i werthuso naw diffiniad gwahanol o 'ddatblygiad', neu i ddethol rheolau dosbarth.</td>
<td>Y ffordd orau o weithredu yw lobïo rhywun (cyflwyno dadleuon i rywun) sydd mewn safle o awdurdod, er enghraifft, ysgrifennu llythyr neu e-bost, anfon deiseb neu holiadur barn, neu fynd i'w weld.</td>
<td>Y ffordd orau o weithredu yw darganfod pa fudiadau sy'n gallu ein cynorthwyo, ac ymuno â'u hymgyrchoedd – lleol, cenedlaethol neu fyd-eang.</td>
<td>Y ffordd orau o weithredu yw perfformio drama sy'n dangos sut mae'r mater yn effeithio ar bobl, er enghraifft, yn y gwasanaeth, neu mewn ysgolion eraill.</td>
</tr>
<tr>
<td>Y ffordd orau o weithredu yw defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli eraill i weithredu.</td>
<td>Y ffordd orau o weithredu yw gwneud taflen, poster neu collage ar y pwnc a'i arddangos i'r rhai yn yr ysgol ac yn y gymuned leol.</td>
<td>Y ffordd orau o weithredu yw gwneud dewisiadau gwahanol yn eich bywyd, yn seiliedig ar yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu, er enghraifft, newid yr hyn rydych chi'n ei fwyta, yn ei wisgo ac yn gwario arian arno.</td>
</tr>
<tr>
<td>Y ffordd orau o weithredu yw gwneud cyflwyniad fideo, sain neu ffotograffig i ysgogi trafodaeth am y mater, a chael pobl i'w drafod.</td>
<td>Y ffordd orau o weithredu yw codi arian a'i roi i elusen sy'n gweithio ar y mater dan sylw.</td>
<td>Y ffordd orau o weithredu yw gweithio gyda'r cyfryngau, er enghraifft, rhoi sgwrs ar y radio lleol, gwahodd y cyfryngau i ddigwyddiad.</td>
</tr>
</table>

# ASESU'R DYSGU

### Canllawiau

- Y nod yma yw asesu ar gyfer dysgu, felly, y peth gorau i'w wneud yw plethu'r asesu drwy gydol y broses ddysgu. Er hynny, gall y gweithgareddau isod hefyd fod o gymorth gydag asesu crynodol.
- Byddwch yn benodol bob amser am yr hyn rydych chi'n ei asesu – a gofynnwch i'r dysgwyr fod yn benodol am yr hyn maen nhw eisiau ei asesu.
- Y ffordd orau o ystyried asesu yw fel gweithgaredd rhwng partneriaid, gan ddod â phersbectif yr athro/athrawes a'r dysgwyr at ei gilydd.
- Gall asesu gan gyfoedion fod yn amhrisiadwy, cyn belled â bod yna reolau sylfaenol a meini prawf clir i'r dysgwyr eu dilyn (rhai y gall y dysgwyr helpu i'w llunio). Gall y math hwn o asesu wneud y dysgwyr yn llawer mwy ymwybodol beth yw gwaith o ansawdd uchel, a beth gallan nhw ei wneud i wella.

## Gwybod – Eisiau Gwybod – Wedi Dysgu

Gellir defnyddio'r gweithgaredd syml hwn ar unrhyw gam mewn cyfres o weithgareddau dysgu ar fater neu bwnc penodol. Mae'n galluogi'r dysgwyr i ddogfennu eu lefel bresennol o wybodaeth ac unrhyw fylchau yn yr wybodaeth honno, i strwythuro'r cynnydd yn eu dysgu yn ogystal â dadansoddi'r wybodaeth newydd sydd wedi cael ei dysgu yn dilyn yr ymchwil. Os gwneir hyn mewn grwpiau, gall hefyd atgyfnerthu sgiliau cyfathrebu a gwaith tîm.

Ar y grid (isod), o dan 'Gwybod' bydd y dysgwyr yn ysgrifennu'r hyn maen nhw'n ei feddwl eu bod eisoes yn ei wybod am bwnc neu fater penodol. Os yw'r dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau, efallai yr hoffent ddefnyddio nodiadau gludiog i grynhoi eu meddyliau cyn ysgrifennu eu syniadau ar y cyd ar y grid. Yna anogir y dysgwyr i feddwl am y bylchau yn eu gwybodaeth drwy ysgrifennu'r hyn yr hoffent ei wybod yn y golofn 'Eisiau Gwybod'. Ar ôl gorffen ymdrin â'r pwnc (neu ar adeg addas yn ystod y gwaith ar y pwnc), bydd y dysgwyr yn mynd yn ôl at y grid er mwyn cwblhau'r golofn 'Wedi Dysgu' a chymharu'r hyn maent wedi'i ddysgu â chynnwys y colofnau 'Gwybod' ac 'Eisiau Gwybod'.

| Pwnc: | | |
|---|---|---|
| **GWYBOD**<br>Beth rydyn ni'n ei wybod yn barod? | **EISIAU DYSGU**<br>Beth rydyn ni eisiau ei wybod? | **WEDI DYSGU**<br>Beth rydyn ni wedi'i ddysgu? |
| | | |



Llun: Chris O'Donovan


## Graddfeydd Likert

Mae graddfeydd Likert yn cynnwys ystod o safleoedd rhwng dau eithaf. Gellir eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth helaeth o ddibenion, yn cynnwys asesu cyfranogiad. Gallwch ddefnyddio cynifer o raddfeydd ag y mynnwch, neu dim ond ychydig ohonynt. Dengys y siart sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang (isod) sut y gellir llunio cyfres o raddfeydd Likert syml ar gyfer hunanasesu. Cyn llunio'r graddfeydd, efallai y gallech drafod â'r dysgwyr beth ddylid ei asesu, er y gallai fod yn haws rhoi siart parod iddynt a gofyn iddyn nhw awgrymu newidiadau.

| Siart sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr uchel** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **Sgôr isel** |
| Wedi gweithio'n dda fel rhan o grŵp | | | | | | Ddim wedi gweithio'n dda fel rhan o grŵp |
| Wedi cyfrannu at y trafodaethau | | | | | | Ddim wedi cyfrannu at y trafodaethau |
| Yn ei chael yn hawdd gwrando ar farn eraill | | | | | | Yn ei chael yn anodd gwrando ar farn eraill |
| Wedi cynllunio'n dda | | | | | | Ddim wedi cynllunio'n dda |
| Y sgiliau a enillwyd: | | | | | | |
| Pethau sydd angen eu gwella: | | | | | | |

## Yr olwyn werthuso

Mae olwyn werthuso yn dangos i ba raddau y cyflawnwyd amcanion penodol. Gellir gwneud y gweithgaredd hwn yn unigol neu mewn grwpiau. Rhennir dau gylch cydganol yn segmentau, gyda phob segment yn cynrychioli dangosydd gwahanol, er enghraifft pa sgiliau a ddefnyddiwyd neu pa weithredoedd a wnaed. Bydd y dysgwyr yn lliwio rhannau o bob segment yn y cylch mewnol i ddangos i ba raddau y maent wedi llwyddo i gyflawni'r hyn mae pob dangosydd yn ei gynrychioli. Gellid defnyddio'r lletem allanol ar gyfer sylwadau.




### Adnoddau pellach

**CARDIAU MYNEGI**

Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu sylwadau ar gardiau ac yn eu rhoi mewn blwch postio yn y dosbarth. Mae rhoi geiriau dechreuol brawddegau yn ffordd ddefnyddiol o fframio sylwadau, er enghraifft, 'Rydw i wedi dysgu bod ...', 'Rydw i eisiau dysgu mwy am ...' Dewiswch gerdyn o'r blwch a'i ddefnyddio fel sail i drafod.

**GOLEUADAU TRAFFIG**

Bydd y dysgwyr yn defnyddio cardiau coch, oren a gwyrdd i ddangos faint maen nhw'n ei ddeall.

**SUT WYDDON NI EI FOD YN GWEITHIO?**

Os hoffech fesur y newid mewn agweddau tuag at ddinasyddiaeth fyd-eang, mae'r adnodd hwn yn ddefnyddiol iawn i athrawon ar gyfer dysgwyr o'r blynyddoedd cynnar hyd at Gyfnod Allweddol 5. Ar gael o'r Reading International Solidarity Centre: **www.risc.org.uk**

# CYMORTH PELLACH AC ADNODDAU ERAILL

## oxfam.org.uk/education

**Adnoddau:** Mae gwefan addysg Oxfam yn cynnwys adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ar amrywiol faterion byd-eang. Mae gennym becynnau ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang weithredol, adnoddau dosbarth ac adnoddau ar-lein. Mae llawer o'r rhain ar gael yn Gymraeg.

**Arweiniad i athrawon a datblygiad proffesiynol:** Mae'r wefan hefyd yn cynnwys manylion am raglenni datblygiad proffesiynol parhaus Oxfam ar gyfer athrawon, a chanllawiau i athrawon, sydd ar gael am ddim, er enghraifft:

- *Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang – Arweiniad i ysgolion*
- *Mathemateg a Dinasyddiaeth Fyd-eang*
- *English and Global Citizenship*
- *Building Successful School Partnerships*
- *Teaching Controversial Issues*

**World Shapers (England)**: Mae'r adnodd hwn yn cynnig cymorth pwrpasol i ysgolion yn Lloegr i wreiddio dinasyddiaeth fyd-eang.

**Llysgenhadon Ifainc (Youth Ambassadors): Nod y cynllun hwn yw rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr arwain eu cyfoedion i ddysgu, meddwl a gweithredu ar faterion byd-eang.**

Mae adnoddau'r Youth Ambassador Group yn benodol ar gyfer cyd-destunau addysgol a gwleidyddol yn Lloegr. Er y gall grwpiau yn yr Alban a Chymru sy'n dymuno addasu'r adnoddau hyn i'w defnyddio yn eu cyd-destun hwy gofrestru ar gyfer y cynllun, swyddfeydd Oxfam yn Lloegr yn unig all gynorthwyo gyda'r cynllun hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach am waith Oxfam ym maes addysg, ffoniwch 0300 200 1300 neu anfonwch e-bost at: education@oxfam.org.uk

## Rhaglen Dysgu Byd-eang

Mae'r rhaglen hon yn cefnogi, yn rhad ac am ddim, ymagwedd ysgol gyfan at addysgu dinasyddiaeth fyd-eang, yn ogystal â datblygiad proffesiynol i athrawon.

- Cymru: globaldimension.org.uk/glpwales
- Lloegr: globaldimension.org.uk/glp
- Gogledd Iwerddon: centreforglobaleducation.com/global-learning-programme
- Yr Alban: ideas-forum.org.uk/glps

## globaldimension.org.uk

Mae gwefan y Global Dimension yn cynnwys arweiniad chwiliadwy i dros 1,000 o lyfrau, ffilmiau, posteri ac adnoddau ar y we – i gyd wedi'u hadolygu – i gefnogi dysgu byd-eang ar gyfer pob grŵp oedran a phwnc.

## hwb.wales.gov.uk

Amgylchedd dysgu rhithiol ar gyfer Cymru gyfan yw Hwb; mae'n cynnwys casgliad o adnoddau dysgu digidol dwyieithog, yn cynnwys adnoddau sy'n cefnogi addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

## ideas-forum.org.uk

Rhwydwaith o sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud ag addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang ledled yr Alban yw IDEAS (International Development Education Association of Scotland). Mae'r wefan yn cynnwys manylion prosiectau a rhaglenni i ysgolion ac athrawon, cylchgrawn rheolaidd sy'n cynnwys erthyglau ar faterion byd-eang, gweithgareddau dosbarth ymarferol ac adnoddau defnyddiol, yn ogystal â newyddion o ysgolion a chan aelodau IDEAS.

## britishcouncil.org/connectingclassrooms

Mae Connecting Classrooms yn cefnogi gwaith ysgolion i ddatblygu dinasyddiaeth fyd-eang drwy bartneriaethau ysgolion rhyngwladol.

## globalclassrooms.org.uk

Mae gan y Consortium of Development Education Centres aelodau ledled Lloegr; mudiadau annibynnol, lleol, dielw ydynt, ac mae eu gwaith craidd yn cynnwys cefnogi a darparu addysg ar faterion byd-eang i ysgolion.

## Athroniaeth i Blant (Philosophy for Children – sapere.org.uk

Methodoleg ardderchog i annog dysgwyr i archwilio amrywiol safbwyntiau, mewn dull y gellir ei ddefnyddio gyda phob oedran.

## Open Spaces for Dialogue and Enquiry – osdemethodology.org.uk

Casgliad o adnoddau a gweithdrefnau i gynorthwyo i lunio mannau diogel ar gyfer deialog ac ymholi ynghylch materion byd-eang, yn ogystal â hyrwyddo llythrennedd beirniadol.

## Athrofa Addysg UCL (Institute of Education) – ioe.ac.uk/derc

Mae canolfan ymchwil Athrofa Addysg yr UCL yn cyhoeddi papurau ymchwil ar ddulliau dysgu am faterion byd-eang mewn ysgolion.

## Cyrff Anllywodraethol

Yn ogystal ag Addysg Oxfam, mae nifer o gyrff anllywodraethol eraill yn cefnogi addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang. Er enghraifft, gweler gwefannau ActionAid, Amnest Rhyngwladol, Y Groes Goch, Cymorth Cristnogol, CAFOD, Masnach Deg, Islamic Relief, MADE in Europe, Practical Action a Tzedek, ac enwi ychydig yn unig.



Llun: Nigel Willmott

"YR HYN DDAETH YN FWYAF AMLWG I MI OEDD TEIMLADAU'R DISGYBLION O ANGHYFIAWNDER. YN AML BYDDWN YN CYMRYD YN GANIATAOL NAD YW'R DISGYBLION YN SENSITIF I LAWER O FATERION BYD-EANG, OND O GAEL CYFLE I ARCHWILIO MATER YN FANWL – YR ACHOSION GWAELODOL, YR EFFAITH A GAIFF AR BOBL, AC ATEBION POSIBL – ROEDD Y DISGYBLION YN RHANNU EU BARN, YN TRAFOD SYNIADAU AC YN GWRANDO AR EI GILYDD. ROEDDEN NHW'N GWYBOD PA MOR BWYSIG OEDD EU LLAIS NHW."

Katie Kirk, Athrawes Astudiaethau Crefyddol, Moesol ac Athronyddol, Craigie High School

© Oxfam GB 2016. Cedwir pob hawl.

Mae hawlfraint ar y llyfryn hwn ond caniateir ei atgynhyrchu mewn unrhyw ddull heb dâl at ddibenion addysgu. I gael hawlfraint mewn unrhyw amgylchiadau eraill, i'w ailddefnyddio mewn cyhoeddiadau eraill neu i'w gyfieithu neu ei addasu, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan:
Oxfam Education and Youth, Oxfam House, John Smith Drive, Oxford OX4 2JY.
E-bost: education@oxfam.org.uk. Efallai y bydd yn rhaid talu ffi.

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%.

**oxfam.org.uk/education**

Llun y clawr: Nigel WIllmott

Mae Oxfam yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, Rhif 202918 ac yn yr Alban, SC039042.
Mae Oxfam GB yn aelod o Oxfam International. Rhif mewnol 6669

OXFAM